

Categoreiddio gwasanaethau ar-lein: hysbysiadau gwybodaeth

Mae'r Ddeddf Diogelwch Ar-lein 'Y Ddeddf' yn rhoi cyfrifoldeb cyfreithiol ar gwmnïau sydd ag ystod eang o wasanaethau ar-lein i gadw pobl, yn enwedig plant, yn fwy diogel ar-lein. Mae'n cyflwyno system i categoreiddio rhai gwasanaethau ar-lein sy'n cael eu rheoleiddio ar sail nodweddion allweddol, gan gynnwys nifer y defnyddwyr a swyddogaethau.

Bydd yn rhaid i ddarparwyr gwasanaethau sy'n cael eu categoreiddio gydymffurfio â dyletswyddau ychwanegol gan ddibynnu ar y categori maent yn perthyn iddo.¹ Bydd rhai gwasanaethau sy'n cael eu rheoleiddio yn cael eu dynodi'n wasanaethau categori 1, 2A neu 2B os ydynt yn cyrraedd trothwyon penodol a fydd yn cael eu gosod a'u rhoi ar waith drwy is-ddeddfwriaeth a fydd yn cael ei chyflwyno gan yr Ysgrifennydd Gwladol.

Roeddem wedi cyflwyno ein [hymchwil a'n cyngor](#) i'r Ysgrifennydd Gwladol a chyhoeddi'r cyngor ym mis Mawrth 2024, gan gynnwys trothwyon arfaethedig. Bydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn penderfynu am y trothwyon hynny, gan ystyried ein cyngor.

Ar ôl gosod yr is-ddeddfwriaeth yn y Senedd, bydd Ofcom yn dechrau'r broses o ymgysylltu â ddarparwyr rydym yn meddwl a fydd yn cyrraedd y trothwyon drwy gyhoeddi hysbysiadau gwybodaeth drafft i ddarparwyr perthnasol.

Fel rydym yn ei nodi yn ein [canllawiau pwerau gwybodaeth drafft](#), yn gyffredinol bydd Ofcom yn cyhoeddi hysbysiadau gwybodaeth ar ffurf drafft i'r rhanddeiliaid. Byddant yn cynnwys yr wybodaeth berthnasol i sicrhau bod geiriad yr hysbysiad yn briodol ac wedi'i dargedu'n briodol ac yn ddigon clir i'r derbynydd ymateb iddo o fewn y cyfnod a gynigir. Er nad oes yn rhaid i ddarparwyr ymateb i hysbysiadau gwybodaeth drafft, rydym yn annog pob darparwr sy'n eu cael i ymgysylltu ag Ofcom, yn enwedig os oes ganddynt unrhyw bryderon neu gwestiynau am yr hysbysiad drafft.



Ar ôl pasio'r is-ddeddfwriaeth yn y Senedd ac iddi ddod yn gyfraith, byddwn yn cyhoeddi hysbysiadau gwybodaeth terfynol y bydd yn rhaid i'r ddarparwyr ymateb iddynt.² Bydd yr wybodaeth

¹ Mae rhagor o wybodaeth am y dyletswyddau ychwanegol hyn ar gael yng [ngalwad Ofcom am dystiolaeth](#) (bellach ar gau).

² Bydd yr is-ddeddfwriaeth naill ai'n pasio yn y Senedd ac yn dod yn gyfraith, neu bydd yn cael ei gwrthod. Os bydd y Senedd yn gwrthod yr is-ddeddfwriaeth, gall y ddarparwyr a gafodd hysbysiadau gwybodaeth drafft ddisgwyl rhagor o ohebiaeth gan Ofcom am ein camau nesaf.

rydym yn gofyn amdani gan ddarparwyr yn ein helpu i wneud yr asesiadau angenrheidiol i bennu pa wasanaethau dylid eu categorio ac ym mha categorïau. Byddwn yn cyhoeddi'r gofrestr o wasanaethau wedi'u categorio ar ôl i ni wneud yr asesiadau hynny.³

O ystyried efallai nad yw rhai darparwyr wedi cael hysbysiad gwybodaeth gan Ofcom o'r blaen, rydym yn cyhoeddi'r wybodaeth hon i roi amser i wasanaethau baratoi a gwella eu dealltwriaeth o'r broses hysbysiadau gwybodaeth o dan y Ddeddf fel y mae'n berthnasol i'r broses categorio.

Mae methu â chydymffurfio â hysbysiad gwybodaeth terfynol yn gallu arwain at ganlyniadau o bwys. Mae methu â chydymffurfio yn gallu cynnwys peidio ag ymateb erbyn y dyddiad cau neu ddarparu ymateb anghywir neu anghyflawn (i un neu fwy o gwestiynau neu i rannau o gwestiynau).

Am fwy o wybodaeth ynglyn â ceisiadau am wybodaeth gan Ofcom, ewch i'n gwefan [yma](#).

³ Bydd hyn yn cynnwys rhestr o wasanaethau categori 1 sy'n dod i'r amlwg.